**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

29 Medi 2023

Annwyl Mark,

Fel y byddwch yn gwybod, mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn gyfrifol am fonitro'r broses o weithredu cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.

Yn ystod ein cyfarfod ar 11 Medi 2023, buom yn ystyried Confensiwn y DU-Norwy-Liechtenstein-Gwlad yr Iâ ar Gydgysylltu Nawdd Cymdeithasol. Mae'r cytundeb hwn yn darparu ar gyfer cydgysylltu nawdd cymdeithasol yn barhaus rhwng y DU (ac eithrio Gibraltar a Dibynwledydd y Goron) a Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a/neu Norwy ar ôl Brexit.

Er bod negodi cytundebau gofal iechyd cilyddol yn fater a gedwir yn ôl, mae o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i weithredu rhai agweddau ar y cytundeb hwn, gan gynnwys adennill costau ymwelwyr tramor. Ar y sail honno, deallwn fod Llywodraeth y DU wedi ymgysylltu ac ymgynghori â swyddogion iechyd o'r llywodraethau datganoledig, wedi rhannu testun cyfreithiol drafft, ac wedi cysylltu mewn perthynas â goblygiadau iechyd.

Byddem hefyd yn ddiolchgar pe gallech darparu rhagor o wybodaeth ynghylch eich ymgysylltiad â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r cytundeb hwn, yn ogystal â'r camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod y cytundeb yn cael ei weithredu mewn meysydd o fewn cymhwysedd datganoledig.

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn 19 Hydref 2023.

Anfonaf gopi o’r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Senedd Cymru
Welsh Parliament